



CYNGOR LLYFRAU CYMRU BOOKS COUNCIL of WALES

GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG CANLLAWIAU CYFFREDINOL GRANTIAU MARCHNATA

1 AMCANION

Nod y cynllun hwn yw helpu cyhoeddwr yng Nghymru i hyrwyddo llyfrau Saesneg er mwyn cynyddu gwerthiant. Bwriad grantiau marchnata yw cefnogi teitlau unigol eang o ran eu hapêl a fyddai'n elwa o gael proffil cyhoeddus uwch. Mae ymgyrchoedd cyhoedduswydd aml-deitl, wedi'u targedu'n ofalus yn gymwys am gymorth hefyd lle mae posibilrwydd amlwg o allu gwella gwerthiant teitlau penodol. Nid yw gwaith hyrwyddo cyffredinol (lle mai'r egwyddor yw hyrwyddo'r cyhoeddwr neu'r wasgnod) yn flaenoriaeth.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru hefyd yn gweinyddu cynllun marchnata ar gyfer llyfrau Cymraeg, ac mae cynlluniau ar wahân ar gyfer hyn.

2 CYMHWYSTER

Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?

Mae'r cynllun hwn yn agored i gyhoeddwr yng Nghymru sydd â rhaglen gyhoeddi gyson, neu sydd â chynlluniau hyfyw i sefydlu rhaglen o'r fath.

Pa lyfrau sy'n gymwys?

Gellir cefnogi amrywiaeth eang o lyfrau o dan y cynllun hwn. Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys y prif categorïau cymwys. Mae'n bosibl y gellir ariannu teitlau mewn categorïau eraill:

- os ydynt yn debygol o greu refeniw sylweddol a fydd yn galluogi cyhoeddwr i fuddsoddi yn ei raglen ysgrifennu Saesneg yng Nghymru *ac/neu*
- os oes diddordeb Cymreig sylweddol iddynt.

- Celfyddyd a Phensaernïaeth
- Cofiannau
- Llyfrau plant
- Llyfrau comics a nofelau graffig
- Coganio
- Hanes diwylliannol
- Twristiaeth ddiwylliannol (ond nid arweinlyfrau)
- Materion cyfoes
- Ffuglen
- Hanes (ond nid hanes lleol)
- Llenyddiaeth
- Cerddoriaeth, llwyfan a sgrin
- Ffotograffiaeth
- Cyfeirlyfrau
- Crefydd a materion ysbrydol
- Natur
- Chwaraeon
- Teithio

Nid yw'r categorïau a ganlyn yn gymwys i dderbyn cymorth fel arfer.

- Llyfrau cyfeiriadau, dyddlyfrau, dyddiaduron, ayb
- Creiriau ac eitemau casgladwy - canllawiau i ddefnyddwyr
- Adeiladu
- Busnes
- Crefftiau'r Cartref (DIY)
- Addysg: dulliau a deunyddiau dysgu
- Iechyd a ffitrwydd
- Gwyliau
- Cartref a Gardd
- Hobïau
- Ieithoedd
- Y Gyfraith
- Ffordd o Fyw
- Hanes lleol

- (ac eithrio ble mae'r rhain yn ymwneud yn uniongyrchol ag ysgrifennu Saesneg yng Nghymru)
- Teulu
- Arian
- Gemau a phosau
- Arweinyfrau
- Mapiau ac arweinyfrau
- Hunan-gymorth
- Llawlyfrau technegol

Nid yw'r naill na'r llall o'r rhestri uchod yn gwbl gynhwysfawr. Lle bo ansicrwydd a yw gwaith yn gymwys, gofynnwn i gyhoeddwr drafod eu prosiectau gydag Adran Datblygu Cyhoeddi Cyngor Llyfrau Cymru cyn cyflwyno cais.

Rydym yn croesawu ceisiadau am lyfrau sy'n helpu i gynyddu amrywiaeth yn y ddarpariaeth sydd ar gael, yn enwedig gwaith sy'n cyfleu profiadau bywyd awduron du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal ag eraill sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

3 BLAENORIAETHAU A MEINI PRAWF AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

Bydd y ceisiadau'n cael eu cloriannu yn ôl y meini prawf a ganlyn.

Cynlluniau Llyfrau / Marchnata

Rhoddir blaenoriaeth i hyrwyddo llyfrau sydd wedi derbyn cymorth ar ffurf Blaendaliadau/Ffioedd i Awduron a Grantiau Dylunwyr. Mae'r llyfrau hyn wedi cael eu cloriannu'n barod o ran eu hapêl gref i'r farchnad ac ansawdd tebygol y cynhyrchu.

Yr ail flaenoriaeth yw cloriannu cryfder y cynllun marchnata, a gaiff ei farnu'n ôl y meini prawf a ganlyn (nad ydynt wedi eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth)

- rhagolygon gwerthiant a rhediadau argraffu (fel arfer bydd y rhediad argraffu cyntaf yn 2000 o leiaf, ond gall hyn amrywio yn ôl genre, awdur, cynigion marchnata, neu ffactorau eraill).
- ansawdd y dylunio a'r cynhyrchu
- ansawdd yr ysgrifennu a'r golygu
- strategaeth farchnata arloesol a rhagweithiol
- gwerth am arian
- gwerth ychwanegol : rhaid i gyhoeddwr ddangos sut y mae'r cynlluniau marchnata a gynigir yn ychwanegu at wasanaethau canolog sy'n bod yn barod ar gyfer y gwasanaeth llyfrau yng Nghymru a faint o weithgaredd marchnata y mae'r cyhoeddwr yn ei wneud ar hyn o bryd
- gostyngiadau cystadleuol.

D.S. Bwriad y cynllun hwn yw cefnogi llwyddiant masnachol teitlau. Disgwylir i deitlau a gefnogir o dan y cynllun hwn gyrraedd targed gwerthiant o 2,500 copi o fewn 18 mis. Os bydd cyhoeddwr yn methu cyrraedd y targed hwn yn gyson, bydd hynny'n cael ei ystyried mewn ceisiadau yn y dyfodol.

Lle bo digon o arian ar gael, gellir ymestyn y cynllun hefyd i gefnogi llyfrau addas eang eu hapêl a gefnogir gan Grant Llenyddiaeth Cyngor Llyfrau Cymru, teitlau a gyhoeddir gan gyhoeddwr cyllid refeniw, a theitlau eraill a diddordeb Cymreig iddynt.

Dyma ffactorau eraill allai gael eu hystyried:

Cyhoeddwr

Mewn achosion lle gofynnir am Grantiau Marchnata ar gyfer llyfrau nad oes diddordeb Cymreig penodol iddynt, rhoddir blaenoriaeth i'r teitlau hynny sy'n debygol o greu refeniw gwerthiant fydd yn cael ei ddefnyddio wedyn i gefnogi rhaglen gyhoeddi o lyfrau sy'n berthnasol i Gymru. Ystyrir y ffactorau a ganlyn felly:

- Cryfder rhestr a rhaglen y cyhoeddwr ar y pryd, yn arbennig ym maes ysgrifennu Saesneg yng Nghymru.
- Y graddau y mae rhestr y cyhoeddwr o ysgrifennu Saesneg yng Nghymru yn debygol o elwa o refeniw a gaiff ei greu gan y prosiect arfaethedig.
- Hanes gwerthiant blaenorol y cyhoeddwr (ar gyfer llyfrau sydd wedi derbyn grantiau tebyg).
- Hanes y cyhoeddwr o gadw at amserlenni cyhoeddi yn y gorffennol.

Perthnasedd i Gymru

- Lle bo bob ffactor arall yn gyfartal, rhoddir blaenoriaeth i brosiectau'n cynnwys awduron neu arlunwyr sy'n Gymry neu'n byw yng Nghymru, ac/neu lyfrau am destunau Cymreig.

4 Y GRANT

- Cyfanswm y gyllideb flynyddol ar gyfer y cynllun hwn yw oddeutu £30,000.
- Yn gyffredinol, dyfernir rhwng £1,500 i £3,000 ar gyfer pob teitl, er y gall cyhoeddwr gyflwyno angen am fwy neu lai o arian yn eu cais.

5 SUT A PHRYD I YMGEISIO

- Rhaid gwneud ceisiadau ar y ffurflen gais MG [2021] y gellir ei chael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Dylai ceisiadau gynnwys y dogfennau ategol a ganlyn:
 - rhestr gyflawn o'r teitlau Saesneg a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, wedi'u grwpio yn ôl a ydynt wedi derbyn unrhyw fath o grant CLIC neu beidio a chan gynnwys dyddiadau cyhoeddi. Mae ffurflen ar gael ar gyfer hyn.
 - rhagolwg elw a cholled manwl ar gyfer y llyfr arfaethedig. Mae ffurflen electronig ar gael a fydd yn cyfrifo elw/colled yn awtomatig.
- Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi Saesneg, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, fel arfer yn Chwefror, Mai, Gorffennaf a Hydref. Fel arfer mae'r dyddiadau cau yn cael eu nodi ar wefan y Cyngor Llyfrau, neu gellir eu cael trwy ymholi yn y cyfeiriad e-bost isod.
- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol. Dylai cyhoeddwr ganiatáu digon o amser rhwng cyfarfod yr Is-bwyllgor a'r dyddiad cyhoeddi a dechrau'r gweithgareddau marchnata/hyrwyddo a ddisgrifir yn y ffurflen gais. Os yw'n ymddangos bod gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n debygol o gychwyn cyn y gwneir dyfarniad, neu o gael eu gohirio i aros am benderfyniad gan olygu na fyddant mor effeithiol, gallai'r Is-bwyllgor wrthod y cais.
- Rhaid i bob cyhoeddwr sy'n derbyn Grant Marchnata lynu wrth Amodau Cymorth Grant y cynllun hwn (gweler dogfen MG Telerau ac Amodau 2021), gan gynnwys darparu gwybodaeth lyfryddol yn brydlon a sicrhau fod teitlau sy'n derbyn cymorth grant ar gael trwy'r sianeli masnach arferol (gan gynnwys Canolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru). Gofynnir i gyhoeddwr ymgyswrtio gyda'r ddogfen hon cyn bwrw ymlaen â chais.

Grantiau Marchnata Wrth Gefn

Er mwyn sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd yn y cynllun hwn mae trefn ymgeisio wahanol yn bodoli ar gyfer Grantiau marchnata wrth gefn.

- Gellir gwneud cais am Grantiau Marchnata Wrth Gefn ar unrhyw adeg er mwyn i gyhoeddwr allu manteisio i'r eithaf ar unrhyw lwyddiant annisgwyl. Rhaid i'r cyhoeddwr brofi angen a natur annisgwyl y cyfle marchnata.

- Fel arfer ar ôl cyhoeddi y bydd y cyfleoedd hyn nas rhagwelwyd yn codi e.e. er mwyn elwa yn sgil teitl yn cael hwb o'i osod ar restr fer ar gyfer gwobr, neu lwyddiant annisgwyl teitl arbennig y gellir adeiladu arno. Gallai llyfrau nad ydynt wedi'u cyhoeddi eto fod yn gymwys mewn amgylchiadau eithriadol, ond ni fyddwn yn ystyried unrhyw lansiadau neu ddigwyddiadau tebyg oherwydd dylai'r rhain gael eu cynllunio ymlaen llaw. Gallai gweithgareddau marchnata a fyddai'n dderbyniol gynnwys gweithgaredd hyrwyddo mewn siopau ble mae angen ffi, neu weithgaredd hyrwyddo arall cysylltiedig â gwobrau llenyddol, ac ati.
- Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y grantiau wrth gefn bach hyn fydd £5,000 y flwyddyn. Uchafswm gwerth y grantiau a ddyfemir i unrhyw gyhoeddwr unigol mewn un flwyddyn ariannol yw £1,000. Fel arfer bydd y grantiau rhwng 25%-80% o'r costau.
- Dylai cyhoeddwr sy'n dymuno gwneud cais am un o'r grantiau hyn gysylltu â CLIC yn y lle cyntaf a llenwi ffurflen gais [MG (2021)]. Fel arfer bydd penderfyniad ar gael o fewn pythefnos ar ôl i ni dderbyn ffurflen gais. Ni chaiff ceisiadau ôl-weithredol eu hystyried.

6 TALU'R GRANTIAU

Dylai'r cyhoeddwr hawlio a bydd y Cyngor Llyfrau yn rhyddhau'r grant fel a ganlyn:

- **Taliad 1:** Taliad ymlaen llaw.
Fel arfer bydd hanner y grant yn daladwy ymlaen llaw pan dderbynnir ffurflen hawlio wedi'i llenwi [CF MG (2021)].
- **Taliad 2:** Taliad Terfynol.
Telir gweddill y grant pan dderbynnir:
 - ffurflen hawlio wedi'i llenwi [GC MG (2021)];
 - copiâu cyflawn o bob anfoneb berthnasol ar gyfer y prosiect cyfan
 - adroddiad byr ar ba mor effeithiol oedd y gweithgareddau a gafodd eu cynnal (e.e. mynychu digwyddiadau, gwerthiant mewn lansiadau, ymateb i hysbysebion ac ati).
 - pedwar copi cyfarch o'r llyfr a gafodd ei hyrwyddo (bydd yr Adran Datblygu Cyhoeddi yn derbyn y rhain yn uniongyrchol o'r Ganolfan ddothbarthu, nid oes angen eu hanfon)

Noder bod yn rhaid hawlio Taliadau Cyntaf ac Olaf pob Grant Marchnata yn brydlon. Mae'r Cyngor Llyfrau'n cadw'r hawl i ddiddymu neu ostwng taliadau nad ydynt yn cael eu hawlio o fewn tri mis i'r dyddiad pryd roedd y gweithgareddau marchnata i fod i gael eu cwblhau (fel y nodir ar y ffurflen gais).

- **Taliadau Interim**
Weithiau gellir trefnu Taliadau Interim er mwyn helpu gyda'r llif arian ar brosiectau mwy. Gwneir Taliadau Interim pan dderbynnir ffurflen hawlio [CF MG (2021)] ac anfonebau priodol ar gyfer y gweithgareddau sydd wedi eu cynnal hyd yn hyn. Rhaid trefnu Taliadau Interim ymlaen llaw a'r Cyngor Llyfrau fydd yn eu gwneud yn ôl fel y gwêl yn dda.

7 NEWIDIADAU I'R CAIS GWREIDDIOL

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cadw'r hawl i newid swm y grant sy'n daladwy os bydd y manylion yn y ffurflen hawlio yn sylweddol wahanol i'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y cais gwreiddiol neu os nad yw'r cyhoeddwr yn glynu wrth amodau'r cymorth grant (MG Telerau ac Amodau Cyffredinol 2021). Rhaid i'r cyhoeddwr nodi unrhyw newidiadau i'r cais gwreiddiol ar y ffurflenni hawlio perthnasol, a dylai drafod unrhyw newidiadau sylweddol gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi *ymlaen llaw*. Mae'r newidiadau y mae'n rhaid cytuno arnynt ymlaen llaw yn cynnwys: newidiadau i'r llyfrau megis newidiadau o ran y cynnwys/ cyfranwyr arfaethedig; newidiadau i'r rhediad argraffu (mae gostyngiadau mewn rhediad argraffu'n cael eu hystyried yn fater difrifol iawn gan fod hwn yn ffactor allweddol y mae'r Is-bwyllgor yn seilio'i benderfyniad i ddyfarnu grant arno); newidiadau i'r gweithgareddau marchnata sy'n cael eu cynnal; newidiadau eraill sy'n debygol o gael effaith ar gyfanswm cyllideb yr ymgyrch farchnata, gwerthiant y llyfr neu botensial marchnata'r llyfr.

8 MONITRO A GWERTHUSO GWAITH A GEFNOGWYD

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn gofyn i gyhoeddwr ddarparu ffigurau gwerthiant a refeniw gwerthiant wedi'u diweddarau yn rheolaidd ar gyfer teitlau sy'n cael cymorth o dan y cynllun hwn. Mae'n bosib y bydd hefyd angen copïau o adolygiadau i helpu i fonitro ansawdd. Yn y tymor hirach, rhoddir ystyriaeth hefyd i sut mae elw a wneir o'r teitlau hyn o fudd i raglen gyhoeddi fwy cyffredinol ysgrifennu Saesneg yng Nghymru y cyhoeddwr.

NODIADAU AR LENWI'R FFURFLEN GAIS (fel y cyfeirir ati ar y ffurflen)

- Categori** Nodwch beth yw Categori'r llyfr y bwriadwch ei gyhoeddi. Y cynllun dosbarthu safonol ar gyfer masnach lyfrau'r DU a marchnadoedd eraill yn yr iaith Saesneg yw cynllun Categoriâu Pynciau a Goleddfwr Safonol Book Industry Communication (BIC) ac mae rhestr gyflawn o'r categorïau ar gael yn www.bic.org.uk/productinfo-subjectcat.html. Mae'r prif benawdau categori perthnasol fel a ganlyn, ond dylech edrych ar y rhestr gyflawn am fwy o fanylion:

A Y Celfyddydau	G Cyfeirlyfrau, Gwybodaeth ac Astudiaethau
B Bywgraffiadau a Storiâu Gwir	Rhyngddisgyblaethol
C Iaith	H Dyniaethau (Hanes, Archaeoleg, Athroniaeth, Crefydd)
D Llenyddiaeth ac Astudiaethau Llenyddol	J Cymdeithas a Gwyddorau Cymdeithasol
F Ffuglen ac Eitemau Cysylltiedig	W Ffordd o Fyw, Chwaraeon a Hamdden
	Y Plant, Oedolion Ifanc ac Addysgiadol
- Fformat** Dylai fformat y llyfr y bwriadwch ei gyhoeddi fod yn addas ar gyfer categori'r llyfr a dilyn yr hyn sy'n arferol yn y diwydiant (e.e. 'fformat A' (fel arfer tudalen wedi'i thorri maint 178 x 111 mm (heb wnïo)) yw fformat arferol llyfrau clawr papur ar gyfer y farchnad dorfol; 'fformat B' fel arfer maint wedi ei dorri'n 198 x 126 mm (heb wnïo)) yw'r fformat arferol i lyfrau clawr papur a ffefrir ar gyfer llyfrau nad ydynt yn ffuglen ynghyd â ffuglen lenyddol). Os ydych yn ansicr, cysylltwch gyda Chyngor Llyfrau Cymru. Ni fydd grantiau'n cael eu dyfarnu i lyfrau â fformatau amhriodol neu safonau cynhyrchu gwael.
- Dyddiad Cyhoeddi** Rhowch ddyddiad cyhoeddi llawn. Gallwch newid hwn yn ddiweddarach os bydd angen cyn belled ag y rhoddir rhybudd digonol (gweler Amodau'r Grant). Mewn achosion lle rhoddir y mis a'r flwyddyn yn unig, bydd y Cyngor Llyfrau yn defnyddio'r 15fed o'r mis fel dyddiad rhagosodedig.
- Rhagolwg Elw a Cholled** Nod y cynllun hwn yw helpu cyhoeddwr i gomisiynu neu fidio am deitlau allai greu incwm gwerthiant sylweddol. Oherwydd hynny dylid cwblhau rhagolwg elw a cholled manwl ar gyfer pob teitl fel y gall y cyhoeddwr yn ogystal â'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi amcanu pa mor broffidiol fydd y teitl dan sylw. Mae ffurflen ar gael ar ffurf dogfen excel sy'n cynnwys cyfrifo maint yr elw'n awtomatig. Dylai'r wybodaeth gryno gael ei bwydo yn y lle iawn ar y ffurflen gais hefyd.
- Dyddiad Cychwyn a Dod i Ben** Mae'n bwysig rhoi gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy. Rhaid i'r cyhoeddwr gyflwyno'r hawliad am daliad olaf y grant, ynghyd â'r dogfennau ategol, o fewn tri mis i'r dyddiad dod i ben a nodir (oni bai y cytunir ar newidiadau gyda'r Cyngor Llyfrau *ymlaen llaw*).
- Perfformiad Blaenorol** Y nod yw arddangos posibilidau gwerthiant da'r llyfr sy'n cael ei gynniw trwy gyfeirio at dystiolaeth o werthiant teitlau tebyg neu deitlau gan yr un awdur yn y gorffennol.
- Cynulleidfa/Marchnad Darged** Mae'n bwysig arddangos gwybodaeth dda am y farchnad ar gyfer y math o lyfr rydych yn ceisio'i hyrwyddo, a dyma'r farchnad y mae'n rhaid i chi ddangos y byddwch yn ei chyrraedd trwy gynnal y gweithgareddau a ddisgrifir yn eich cynllun marchnata.

8. **Cynllun Marchnata** Gofalwch eich bod yn rhoi cymaint o fanylion ag sy'n bosibl gan y bydd hyn yn gwella ansawdd y cais ac yn cynyddu'r posibilrwydd y dyfernir grant. Er enghraifft, nid yw'n ddigon cynnig y byddwch yn 'hysbysebu yn y cyfryngau priodol'; yn hytrach, dylid rhestru'r union gylchgronau (ynghyd â'r cylchrediad). Os ydych yn cynnwys digwyddiad/lansiad, rhowch fanylion lle a phryd y mae wedi'i gynllunio a disgrifiwch sut y byddwch yn sicrhau presenoldeb da a nodwch beth yw eich targed o ran presenoldeb (e.e. i gael 50 o unigolion i fynychu lansiad, trwy yrru gwahoddiadau o gronfa ddata gyfredol, hysbysebu cyhoeddus, prynu rhestrau postio ac ati). Dylid nodi'r union niferoedd a fydd yn mynychu wrth hawlio'r grant. Yn olaf, bydd cyfeirio'n berthnasol at brofiad blaenorol o drefnu gweithgareddau marchnata tebyg (a'r canlyniadau) yn helpu i gryfhau'r cais.
9. **Gwerth Ychwanegol** Mae'n bwysig fod y cyhoeddwr yn gallu arddangos gwerth ychwanegol a chefnogi'r achos dros ddyfarnu grant. Ar gyfer un o ddibenion y cynllun hwn, gellir diffinio gwerth ychwanegol fel gwella ffigurau gwerthiant, (rhoi rhagolygon gwerthiant gyda grant a heb grant), ymestyn rhediad argraffu (rhoi rhediadau argraffu gyda'r grant hwn a hebdo), gwella proffil cyhoeddus y llyfr/awdur/gyfres yn sylweddol (sut caiff hyn ei fesur?), neu ganlyniadau tebyg. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi manylion penodol i gefnogi pob agwedd o'r gwerth ychwanegol a ddisgrifir.

Gellir cael ffurflenni cais a chyngor pellach gan:

**Adran Datblygu Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 2JB
e-mail: english.grants@books.wales**

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG / AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE



GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG

AMODAU A THELERAU CYFFREDINOL
GRANTIAU MARCHNATA

- 1 Cynigir grant ar sail yr wybodaeth a geir yn y cais, ac yn unrhyw ohebiaeth atodol. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cadw'r hawl i ailystyried neu ddi-ddymu'r grant a ddyfarnwyd mewn achosion lle nad yw un ai'r gweithgareddau marchnata neu'r gwaith a gyhoeddwyd yn cydymffurfio â'r manylion a roddwyd ar y ffurflen gais neu y cytunwyd arnynt fel arall.
- 2 Rhaid i'r sawl sy'n derbyn grant gydymffurfio ag amodau unrhyw gynllun arall y mae teitlau unigol wedi derbyn cymorth trwyddo, a chydymffurfio hefyd ag unrhyw amodau a gofynion cynllun ychwanegol a nodwyd yn y cynnig grant ffurfiol neu mewn unrhyw lythyr eglurhaol.
- 3 Mewn achosion lle bydd y cymorth grant a ddyfernir yn amrywio o uchafswm i isafswm, rhaid cytuno gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi ar yr union swm sy'n gymwys cyn i'r cyhoeddwr gynnal unrhyw weithgareddau.
- 4 Rhaid hawlio'r grant cyn pen 4 mis ar ôl cyhoeddi'r llyfr neu ddyddiad yr olaf o'r gweithgareddau a restrir yn y cynllun marchnata (pa un bynnag yw'r dyddiad diweddarach). Os yw'r dyddiad cyhoeddi ar gyfer teitlau y dyfarnwyd grant marchnata iddynt yn llithro mwy na 12 mis, rhaid i ymgeiswyr ailymgeisio am y grant.
- 5 Rhaid nodi nifer y copïau a argraffwyd ar y ffurflen hawlio (os yn berthnasol). O dderbyn bod y rhediad argraffu yn brif ffactor wrth bennu lefel y cymorth grant, dylai'r sawl sy'n derbyn y grant gysylltu gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi i drafod unrhyw newidiadau i'r rhediad argraffu arfaethedig ymlaen llaw. Mae'r Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i leihau'r grant os yw'r rhediad argraffu'n cael ei newid heb gytundeb ymlaen llaw.
- 6 Rhaid argraffu'r gydnabyddiaeth sy'n dilyn ar y ddalen tu ôl i'r ddalen deitl ym mhob llyfr y dyfarnwyd grant iddo neu y mae staff y cefnogir eu swyddi gan gymorth grant wedi gweithio arno: "The publisher acknowledges the financial support of the Welsh Books Council." Yn ogystal, lle bo logos arianwyr/noddwyr/cefnogwyr eraill yn ymddangos ar y , ddalen tu ôl i'r ddalen deitl, ar y clawr neu mewn unrhyw le arall yn y llyfr, rhaid i'r cyhoeddwr gynnwys logo Cyngor Llyfrau Cymru yn ychwanegol at y geiriad a rhoddir uchod. Dylid cydnabod cefnogaeth ariannol y Cyngor Llyfrau hefyd ym mhob digwyddiad cyhoeddus sydd â'r nod o hyrwyddo neu farchnata teitlau a gefnogwyd. Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw sicrhau y bydd amser digonol ar gyfer cynnwys cydnabyddiaeth rhwng dyfarnu grant ac argraffu llyfr. Gallai peidio â chynnwys cydnabyddiaeth briodol arwain at ostyngiad o hyd at 10% yn y grant sy'n daladwy. Ni ddylid defnyddio cydnabyddiaeth o'r grant hwn nac unrhyw gyfeiriad arall at y Cyngor mewn unrhyw ffordd i awgrymu fod y Cyngor yn derbyn neu'n ymgymryd â chyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti am ddyledion neu rwymedigaethau'r sawl sy'n derbyn y grant (gweler rhif 29).

- 7 Yn ychwanegol at yr uchod, dylai pob deunydd hyrwyddo, os bydd y fformat yn caniatáu, gynnwys cydnabyddiaeth o gefnogaeth ariannol y Cyngor Llyfrau. Byddwch cystal â defnyddio'r testun canlynol: "The publisher acknowledges the financial support of the Welsh Books Council" a/neu logo'r Cyngor Llyfrau os yw hynny'n addas. Rhaid i'r cyhoeddwr hefyd gynnwys cydnabyddiaeth ar y dudalen berthnasol ar wefan y cyhoeddwr. Os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch lle gellir hepgor cyfeiriad at gymorth ariannol y Cyngor Llyfrau, dylai'r cyhoeddwr gysylltu gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi.
- 8 Dylai unrhyw gyfeiriad at ddsbarthu mewn deunydd masnachu neu hyrwyddo gynnwys manylion cyswllt Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau.
- 9 Lle ceir cyfeiriad at wefannau neu ffynonellau rhyngwyd eraill mewn unrhyw ddeunydd masnachu neu hyrwyddo cysylltiedig â'r teitl a gefnogir, gan gynnwys hysbysebion, dylid rhestru gwales.com yn ogystal.
- 10 Rhaid cyflenwi llyfrau ar gyfer digwyddiadau / lansiadau a gynhelir mewn siopau llyfrau yng Nghymru trwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau (yn yr achosion hynny lle bydd gan y siop gyfrif). Os na fydd gan y siop lyfrau gyfrif gyda Chanolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau rhaid i'r cyhoeddwr roi gwybod i'r Adran Datblygu Cyhoeddi ymlaen llaw er mwyn derbyn cyngor pellach. Pan fydd digwyddiadau / lansiadau wedi eu trefnu mewn lleoliadau heblaw siopau llyfrau, dylai'r cyhoeddwr wahodd siop lyfrau annibynnol leol i gyflenwi'r llyfrau ar gyfer y digwyddiad (mae'n bosibl y bydd y siop yn gymwys i dderbyn cymorth i gwrdd â'r gost o ddarparu'r gwasanaeth hwn trwy Gynllun Ymestyn y Cyngor Llyfrau). Os na fydd unrhyw siop lyfrau ar gael dylai'r cyhoeddwr gysylltu gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi am gyngor pellach.
- 11 Rhaid cyflwyno'r holl anfonebau ar gyfer yr ymgyrch farchnata wrth hawlio'r grant (oni bai bod cytundeb i'r gwrthwyneb). Bydd y Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i ofyn am unrhyw dystiolaeth berthnasol arall.
- 12 Rhaid i'r sawl sy'n derbyn grant ddarparu ffigurau gwerthiant wedi'u diweddarau ar gyfer y teitlau a gefnogir o dan y cynllun hwn, a'r incwm a'r elw a gynhyrchir ganddynt. Bydd y Cyngor Llyfrau yn gofyn am y ffigurau hyn o bryd i'w gilydd. Mae'r Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i ofyn am unrhyw wybodaeth resymol arall ynghylch perfformiad llyfr sy'n derbyn cymorth grant er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd cymorth grant a monitro gwerth am arian.
- 13 Mae'n bosibl yn bydd yn ofynnol i'r cyhoeddwr lenwi ffurflenni byrion a fydd o gymorth i werthuso digwyddiadau marchnata a gynhaliwyd gyda chymorth grant. Hefyd, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r cyhoeddwr ddarparu adroddiad manwl yn achlysurol ar ddiwyddiadau marchnata penodol sy'n derbyn cymorth grant a'u canlyniadau er mwyn helpu'r Cyngor Llyfrau i fonitro a gwerthuso'r cynllun.
- 14 Rhaid i bob llyfr sy'n derbyn grant arddangos rhif ISBN 13-digid a chod-bar cyfatebol ar glawr pob cyhoeddiad.
- 15 Dylid anfon gwybodaeth lyfryddol amserol (gan gynnwys ISBN, teitl, awdur, cyhoeddwr, pris, dyddiad cyhoeddi, categori a disgrifiad byr) i Adran Gwerthu a Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau naw mis cyn cyhoeddi neu o fewn pythefnos ar ôl i'r cyhoeddwr dderbyn cynnig grant, pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf o'r dda. Bydd yr wybodaeth yma'n cael ei dangos wedyn ar *gwales.com*.

- 16 Dylid anfon llun o glawr y llyfr (mae drafft da yn dderbyniol yn y lle cyntaf yn hytrach na fersiwn derfynol) i Adran Gwerthu a Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau o leiaf dri mis cyn cyhoeddi. Dangosir y clawr wedyn ar *gwales.com*.
- 17 Dylai'r sawl sy'n derbyn y grant ddefnyddio'r ffurflen ar-lein i gyflwyno pob gwybodaeth lyfryddol a lluniau o'r clawr. Mae cyfrinair ar gyfer defnyddio'r ffurflen ar-lein, sydd ar gael trwy gysylltu gyda'r Adran Gwerthu a Gwybodaeth. Mewn amgylchiadau lle nad yw hyn yn bosibl dylai'r sawl sy'n derbyn y grant drafod hyn gyda'r Adran Gwerthu a Gwybodaeth a'r Adran Datblygu Cyhoeddi.
- 18 Rhaid i'r cyhoeddwr ddiweddarau pob gwybodaeth sydd am y teitl ar *gwales.com* (gwybodaeth lyfryddol, disgrifiad byr a llun o'r clawr) yn syth, yn ôl fel y bydd unrhyw newidiadau'n digwydd cyn ac ar ôl cyhoeddi, hyd nes bydd y llyfr allan o brint. Dylai'r sawl sy'n derbyn y grant wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol trwy'r ffurflen ar-lein (neu yn ôl fel y bydd yr Adran Gwerthu a Gwybodaeth yn cynghori). Gellir cyflwyno gwybodaeth ychwanegol gan y cyhoeddwr yn electronig yn ôl fel y bydd y cyhoeddwr yn gweld yn dda, gan gynnwys tabl cynnwys, bywgraffiad awdur, dyfyniadau o adolygiadau a manylion gwobrau a enillwyd.
- 19 Yn ogystal â rheoli llif gwybodaeth fanwl gywir i'r fasnach lyfrau, dylai'r sawl sy'n derbyn y grant roi gwybod i'r Adran Datblygu Cyhoeddi am unrhyw oedi o ran y dyddiad cyhoeddi (neu fanylion eraill, e.e. newid teitl) mewn da bryd ac o leiaf o dri mis cyn y dyddiad cyhoeddi gwreiddiol. Os na chyhoeddir y llyfr o fewn tri mis i'r dyddiad cyhoeddi a roddwyd i'r Adran Datblygu Cyhoeddi, gellir diddymu'r grant yn awtomatig.
- 20 Ni ddylid cyhoeddi llyfrau sy'n derbyn cymorth grant yn ystod mis Rhagfyr ac ni roddir grant i unrhyw deitl y trefnwyd i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Rhaid i gopïau unrhyw deitlau Tachwedd gyrraedd Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau erbyn y dydd Mercher olaf ym mis Tachwedd. Bydd gostyngiad o £200 yn y grant taladwy i lyfrau a gyhoeddir ym mis Rhagfyr, neu deitlau Tachwedd sy'n cyrraedd y Canolfan Ddosbarthu ar ôl y dyddiad hwn.
- 21 Wrth ailargraffu neu gyhoeddi argraffiadau newydd, rhaid arddangos blwyddyn cyhoeddi'r ailargraffiad neu'r argraffiad newydd yn glir.
- 22 Rhaid i'r awdur dderbyn a llofnodi cytundeb cyn i'r llyfr gael ei gyhoeddi. Dylai awduron dderbyn tâl yn brydlon yn unol â'r atodlen tâl yn y cytundeb. Wedi i'r gwaith gael ei gyhoeddi, dylai'r awdur dderbyn datganiad ariannol a thâl, os yw hynny'n berthnasol, o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai cytundeb yr awdur nodi pryd y gellid disgwyl datganiadau breindal a thaliadau o'r fath.
- 23 Wrth hawlio'r taliad grant terfynol bydd yr Adran Datblygu Cyhoeddi yn archebu;r pedwar copi cyfarch gofynnol yn uniongyrchol o'r Ganolfan Ddosbarthu. Os bydd copïau o'r llyfr eisoes wedi eu darparu o dan gynllun gwahanol, ni fydd raid i'r cyhoeddwr ddarparu pedwar ychwanegol er mwyn cwrdd â'r amod hwn, oni bai bod yr Adran Datblygu Cyhoeddi yn gofyn yn benodol am hyn.
- 24 Yn achos unrhyw lyfr sy'n derbyn cymorth grant, dylid rhoi gwybod i'r Cyngor Llyfrau am unrhyw gymorth ariannol a dderbyniwyd tuag at gyhoeddi'r llyfr o unrhyw ffynhonnell heblaw'r Cyngor Llyfrau.

- 25 Rhaid i bob llyfr sy'n derbyn grant fod ar gael trwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau ar delerau'r Cyngor Llyfrau (fel arfer isafswm archeb o 60 copi o bob teitl, ond yn uwch yn aml, neu ar sail gwerthu neu ddychwelyd fel y gallant fod ar gael i fanwerthwyr ar y telerau masnachol arferol).
- 26 Mae'n amod bod llyfrau sy'n derbyn cymorth grant yn cael eu danfon i Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau cyn neu ar yr un pryd ag y byddant ar gael trwy ddulliau eraill i unrhyw ddsbarthwr neu fanwerthwr, neu mewn lansiad neu ddigwyddiad arall. Y cyhoeddwr sy'n gyfrifol am gludo a chyflenwi llyfrau'n brydlon.
- 27 Os yw llyfr ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg, ac un o'r fersiynau hynny wedi derbyn cymorth grant, yna rhaid i'r ddwy fersiwn fod ar gael trwy'r Ganolfan Ddosbarthu yn unol â'r telerau a nodwyd yn amodau 25 a 26.
- 28 Dylai pob llyfr sy'n derbyn cymorth grant fod mewn print ac ar gael yn gyson yng Nghanolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau am o leiaf un flwyddyn ar ôl cyhoeddi. Os na fydd llyfr ar gael neu os bydd allan o stoc yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl ei gyhoeddi, bydd hawl gan y Cyngor Llyfrau i hawlio ad-daliad grant o £1,000 y teitl. Mae cydargraffiadau rhyngwladol a llyfrau tymhorol, er enghraifft rhai llyfrau a gyhoeddir ar gyfer y Nadolig, wedi'u heithrio. Rhaid gofalu nad yw problemau gyda rhwymo, er enghraifft, neu rediadau argraffu annigonol yn cael effaith ac yn golygu nad yw llyfr ar gael. Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw sicrhau bod llyfrau'n cyrraedd y Ganolfan Ddosbarthu mewn da o bryd er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn.
- 29 Ni ddylid gwerthu hawliau DU teitlau a dderbyniodd gymorth grant o fewn y ddwy flynedd gyntaf ar ôl cyhoeddi heb gytundeb y Cyngor Llyfrau ymlaen llaw.
- 30 Os na chyflawnir y dibenion y rhoddwyd y grant eu cyfer o fewn amser priodol, neu os na chydymffurfiwyd â'r amodau perthnasol, gallai'r Cyngor Llyfrau ofyn i'r sawl a dderbyniodd y grant ddychwelyd y cyfan neu ran o unrhyw grant allai fod wedi'i dalu.
- 31 Disgwylir i deitlau a gefnogir o dan y cynllun hwn gyrraedd targed gwerthiant o 2,000 copi o fewn 18 mis. Os bydd cyhoeddwr yn methu cyrraedd y targed hwn yn gyson, bydd hynny'n cael ei gymryd i ystyriaeth mewn gan yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi wrth ddyfarnu cyllid.
- 32 Mae'r Cyhoeddwr ar ei ran ei hun (ac eraill) yn cyfamodi gyda Chyngor Llyfrau Cymru a'u hollynwyr yn y teitl y bydd ef/hi y cyhoeddwr bob amser o hyn ymlaen yn diogelu'r Cyngor Llyfrau ac yn ei ddigolledu rhag pob achos, cost, hawliad a gorchymyn mewn perthynas ag unrhyw weithred allai arwain at dorri cyfreithiau Cymru a Lloegr.

[MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG / AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE](#)